# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **3ydd o Orffennaf** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Parry, Edward Evans (Bryncir), John Till (Golan), Jess Williams, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Megan Lloyd Williams (Golan),<br>Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Gerwyn Jones ac Iwan ap Trefor – Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd | Cynhaliwyd cyfarfod safle ym Mhrenteg gyda swyddogion o Gyngor Gwynedd: Mr Gerwyn Jones, Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd, a Mr Iwan ap Trefor, Rheolwr Traffig a Phrosiectau. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod pryderon a materion sy'n ymwneud â thraffig yn y pentref. Ymhlith y pynciau a drafodwyd roedd croesfan Pont y Traeth ar arwydd "Stop" sydd wedi'i beintio ar y briffordd a chyfyngiadau cyflymder wrth ddod i'r pentref o gyfeiriad Tremadog, Beddgelert a Garreg Llanfrothen. Bydd y materion yn derbyn ystyriaeth bellach gan swyddogion, rhai yn y tymor byr ac eraill yn y tymor canolig/hir. Yn ôl y swyddogion bydd cyflawni unrhyw ddatrysiadau yn ddibynnol ar bethau megis deddfwriaeth gwlad, adolygiad Llywodraeth Cymru o derfynau cyflymder, cysondeb, pa mor ymarferol ydynt a chyllideb. |
| 5. | Datgan Buddiant: | Enid Egginton – Eitem 15 (Cynllunio)<br>Jess Williams - Eitem 8 (Mynwentydd) ac Eitem 9 (Llwybrau Cyhoeddus) |
| 6. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RP yn cynnig a JT yn eilio. |
| 7. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | Safle Bws Bryncir – Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i weld beth yw'r diweddaraf a bod Stephen Churchman hefyd wedi cysylltu, ond heb gael ateb. |
| 8. | Mynwentydd: | <u>Mynwent Llanfihangel y Pennant</u> - Cadarnhawyd bod 3 bwlch angen ei godi. Clerc wedi derbyn tri pris ond dim ond un ohonynt gysylltodd hefo JJ i gael manylion o'r gwaith sydd ei angen. Penderfynwyd mynd gyda'r pris isaf ar yr amod ei fod yn bris sydd wedi cymryd i ystyriaeth 3 bwlch.<br><br>Mae yna goeden marw yno hefyd sydd angen ei dorri. Clerc i holi am brisiau i dorri'r goeden yma.<br><br><u>Mynwent Prenteg</u> - Derbyniwyd gŵyn drwy law y Cynghorydd June Jones am garafán oedd yn rhwystro mynediad i'r fynwent ym |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mhrenteg. Bu i GE ymweld ar fynwent ac nid oedd rhwystr bryd hynny. Gofynnwyd hefyd i'r contractwr torri gwair os y daeth ar draws rhwystr wrth geisio mynd i'r fynwent – roedd digwydd bod yno y diwrnod wnaethom dderbyn y gŵyn. Doedd y garafán ddim yn rwystr o gwbwl.<br><br>Mae yna ambell i gŵyn ddi-enw yn cyrraedd y Cyngor Cymuned. Bu i'r Clerc holi Unllais Cymru am gyngor. Awgrymwyd ein bod yn cynnwys Materion Cwynion Di-enw ar yr agenda ym Mis Medi er mwyn creu polisi.<br><br><u>Mynwent Bethel</u> **–** Gwaith o osod slabiau heb ei orffen eto.<br><br>Angen gwneud mwy o ymchwil i'r "soakaway" sydd ym Mynwent Bethel.<br><br>Trafodwyd y posibilrwydd o gael ardal coffau yn y fynwent i'r rheiny sydd heb eu claddu yno ond mae'r teulu yn dymuno cael rhywle i'w coffau. Eglurodd y Clerc bod cais wedi dod i mewn gan rhywun. Clerc i ymateb i'r ymholydd yn dweud nad yw hyn yn bosib. Mae yn fater sydd angen cael ei drafod yn y Pwyllgor Mynwentydd ac os ydym yn mynd i gysidro ardal ar gyfer y dyfodol, mae angen cael ei gynnwys yn y rheolau claddu. |
| 9. | Llwybrau Cyhoeddus: | Cyfarfod Safle dal heb ddigwydd i drafod llwybr rhif 5 a 110. Clerc o gysylltu eto gyda'r Uned Llwybrau.<br><br>Trafodwyd y posibilrwydd o gael toriad ychwanegol o Hendregadredd i gefn Meysydd. Cytunwyd i gael ail doriad tua mis Medi/Hydref. GE yn cynnig a CW yn eilio. |
| 10. | Adroddiad Pentrefi: | **Pentrefelin** - Angen torri'r gwair gyferbyn a thai Tre'r Ddol. Clerc i gysylltu gydag Adra i ofyn am doriad buan.<br><br>**Golan** - Adroddwyd fod Lôn Fudr wedi culhau yn ofnadwy gyda thyfiant. Clerc i adrodd y mater i Briffyrdd Dwyfor.<br><br>**Prenteg** - Arwydd "ddim yn addas i gerbydau mawr" yn cael ei orchuddio gan dyfiant. Clerc i adrodd y mater i Briffyrdd Dwyfor.<br><br>**Penmorfa –** Nodwyd bod diffyg safle bws ar hyd y ffordd i fyny o gyfeiriad Porthmadog drwy Benmorfa. Dim ond un safle sy'n bodoli, ac mae hwn yn waelod y pentref. Mae trigolion rhan uchaf y pentref yn gorfod cerdded o'r safle gwaelod, gan gynnwys pan fyddant â bagiau siopa trwm. Yn y gorffennol, roedd safle bws ger Bwlch y Fedwen. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Adran Drafnidiaeth i ymchwilio i'r posibilrwydd o ailsefydlu'r safle hwn neu greu un newydd yn rhan uchaf y pentref. Mae dau safle ar gael ar y llwybr o gyfeiriad Caernarfon i Borthmadog.<br><br>**Garndolbenmaen -** Angen torri tyfiant ym Mynydd Glas ar y ffordd o Fur Cwymp i Glan Fawnog. Clerc i gysylltu â Phriffyrdd Dwyfor. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Angen cyfarfod safle i drafod y ffordd gul o Garreg Gron i Glan Gors. Cerbydau mawr yn parhau i yrru lawr y ffordd ac yn tynnu'r wal i lawr. Clerc i drefnu cyfarfod.<br><br>**Bryncir** – Dim i'w adrodd. |
| 11. | Canlyniad Archwiliad Llawn 2023/24 | Rhannwyd canlyniadau'r archwiliad llawn gafwyd yn 2023/24. Cafwyd barn archwilio ddiamod . Diolchwyd i'r clerc am ei gwaith. |
| 12. | Cronfa Gwynedd Ni / Cronfa Cymunedau Eryri | Penderfynwyd gwneud cais am y ddau grant. Penderfynwyd gwneud cais am arian i brynu offer fideo gynadleddau i'r neuaddau pentref i gyd o fewn y gymuned. Soniwyd am gael bwrdd gwybodaeth newydd i Benmorfa. Clerc i weithredu. |
| 13. | Gohebiaeth | Dim |
| 14. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Unllais Cymru - Cyfansoddiad a Fframwaith Llywodraethant Un Llais Cymru<br>b. Ieuan Wyn – Llyn Celanedd - Cefnogi'r cais<br>c. Cyngor Cymuned Llanengan – Diffibrilwyr – Rhannwyd y wybodaeth<br>ch. Unllais - Hyfforddiant Mehefin i Fedi. Trafodwyd hyfforddiant sgiliau cadeirio. Rhoi enw JT i lawr ar gwrs ym mis Awst.<br>d. Adam Dobson – Parc Gwyliau Aberdunant |
| 15. | Cynllunio | **Rhestrau:** 2/6, 9/6, 16/6 a 23/6<br><br>**C25/0451/36/DT** – Glyn Mair, Garndolbenmaen, LL51 9TQ – Estyniad ac Addasiadau – Dim Gwrthwynebiad |
| 16. | Materion Ariannol | **Ceisiadau am arian:**<br>Dawns i Bawb – Clerc i ymateb gyda ffurflen gais er mwyn rhoi cais i mewn pan mae'r ffenest wedi ail agor.<br><br>**Monitro'r Gyllideb:** Dim gorwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br><br>Cyflog Clerc £331.73<br>Ffôn £15.00<br>Cyfrifiadur £20.00<br>HMRC £82.80<br>Veolia £28.28<br>HSBC £8.00<br>Gwasanaethau Coed GBA £360.00<br>Madog Gardencare £610.00<br>ICO £73.00<br><br>**Ychwanegwyd**<br>Dylan Edwards (Cae Chwarae) £110.00<br><br>** Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r anfonebau uchod**<br><br>**Derbyniadau:** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pritchard & Griffiths £445.00<br>Llog HSBC £145.57<br>HMRC VAT Return £692.46<br><br>**Balansau Cyfrifon:**<br>Cadw – £38,683.12<br>Cyfredol- £3,194.42 |
| 17. | Gohebiaeth i'r wasg / wefan | Cyfarfod Safle Pont y Traeth |